**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2025.**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

**28 Hydref 2025**

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1.1 Nod Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 oedd gwella ansawdd dŵr a thrwy hynny ddiogelu iechyd ymdrochwyr. Maent yn gosod dyletswyddau ar yr asiantaethau priodol—Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yng Nghymru—yn ogystal ag awdurdodau lleol, ymgymerwyr carthffosiaeth, ac eraill i ymdrin â llygredd ac ansawdd dŵr gwael (fel y'u diffiniwyd gan y Rheoliadau) mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig a chefnogi camau adferol cydweithredol lle y bo angen.

1.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn unigryw ymhlith fframweithiau monitro ansawdd dŵr amgylcheddol am mai diogelu iechyd pobl yw eu prif ddiben, yn hytrach na diogelu ansawdd dŵr amgylcheddol yn fwy cyffredinol. Mae'n ofynnol i'r Gweinidog nodi dyfroedd ymdrochi poblogaidd, monitro ansawdd eu dŵr, rhoi gwybodaeth dda i ymdrochwyr am safonau ansawdd dŵr ac ymdrechu dros amser i sicrhau ansawdd dŵr da ym mhob un o'r dyfroedd ymdrochi a nodwyd.

1.3 Ystyrir bod diwygiadau 2025 i'r Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi yn angenrheidiol er mwyn cryfhau diogelwch iechyd y cyhoedd ymhellach, gwella mesurau diogelu amgylcheddol, a sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol, gan adlewyrchu blaenoriaethau sy'n benodol i Gymru a gweithio'n agos gyda Defra i sicrhau cysondeb ar yr un pryd lle y bo modd.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae Rheoliadau 2013 eisoes yn gymwys i Gymru a Lloegr, ond mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ei rhaglen dyfroedd ymdrochi yn annibynnol drwy CNC. Er nad oes unrhyw ddyfroedd ymdrochi dynodedig sy'n rhychwantu'r ffin eu hunain, mae'r afonydd a'r dalgylchoedd sy'n bwydo llawer o safleoedd mewndirol ac arfordirol yn gwneud hynny, sy'n golygu bod camau trawsffiniol cydgysylltiedig yn hanfodol er mwyn gwella ansawdd dŵr. Bydd OS cyfansawdd sy'n cwmpasu'r ddwy wlad yn cynnig fframwaith cyfreithiol cyson sy'n cefnogi cydgysylltu o'r fath. Mae'n osgoi dyblygu cyfundrefnau sydd bron yn unfath, yn lleihau cymhlethdod gweinyddol, ac yn rhoi eglurder i reoleiddwyr, cwmnïau dŵr, ac awdurdodau lleol sy'n gweithredu ar draws dalgylchoedd. Yn bwysicaf oll, mae'n sicrhau bod yr ymdrech ar y cyd yn parhau i ganolbwyntio ar wella ansawdd dŵr yn hytrach na rheoli fframweithiau cyfreithiol ar wahân.

2.2 Mae diwygiadau 2025 yn cael eu gwneud i Reoliadau 2013 sy'n offeryn statudol Saesneg sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr.

2.3 Gan y bydd Rheoliadau 2025 yn cael eu gosod yn Senedd y DU ar yr un pryd â'r Senedd, nid yw'r Rheoliadau eu cael eu gwneud yn ddwyieithog.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Bydd Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2025 yn diwygio Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 (O.S. 2013/1675) a wnaed drwy ddefnyddio'r pwerau yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

3.2 Gwnaed Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ar sail gyfansawdd i Gymru a Lloegr a throswyd Cyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi 2006 (2006/7/EC) yr UE gan ddisodli'r Gyfarwyddeb wreiddiol (76/160/EEC) a wnaed yn 1976.

3.3 Gwneir y Rheoliadau diwygio ar sail gyfansawdd hefyd ac fe'u gwneir wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 ("Deddf 1999"). Mae adran 2(1) o Ddeddf 1999 yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw un o'r dibenion a restrwyd yn Rhan I o Atodlen 1 i Ddeddf 1999.

3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1999 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhinwedd erthygl 3(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.5 Mae paragraff 20 o Atodlen 1, Rhan 1 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, (yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau y tybia'r Ysgrifennydd Gwladol eu bod yn briodol), sydd "corresponds or is similar to any provision...capable of being made" [by an Act of Parliament] "in connection with" "the relevant directives" a restrwyd ym mharagraff 20(2). Rhestrir Cyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi 2006/7/EC a droswyd yn gyfraith ddomestig gan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 fel "relevant directive".

3.6 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud sylwadau am unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru yn adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac mae'r pŵer hwn, ynghyd â'r swyddogaethau gweinidogol gweithredol yn adran 58A, yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd y camau a argymhellir.

3.7 Mae Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2025 yn destun gweithdrefn negyddol y Senedd am nad oes unrhyw un o'r eithriadau yn adran 2(8) o Ddeddf 1999 yn gymwys. Nid yw'r Rheoliadau

yn creu trosedd nac yn cynyddu cosb am drosedd sy'n bodoli eisoes nac yn diwygio nac yn diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 (Rheoliadau 2013) yn pennu'r gofynion statudol i reoli dyfroedd ymdrochi a nodwyd yng Nghymru. Er bod Llywodraeth Cymru yn rheoli rhaglen dyfroedd ymdrochi Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth y DU, rhennir y Rheoliadau rhwng Cymru a Lloegr.

4.2 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi safleoedd ymdrochi poblogaeth i'w dynodi. O dan Reoliadau 2013, yr unig faen prawf ar gyfer dynodi dyfroedd ymdrochi yw tystiolaeth bod disgwyl i 'nifer mawr o ymdrochwyr' fod yn y safle.

4.3 Diben Rheoliadau 2013 yw sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu drwy'r defnydd o fonitro a dosbarthiadau ansawdd dŵr ymdrochi. Fodd bynnag, bu newidiadau o ran sut a ble mae pobl yn defnyddio dyfroedd ymdrochi ers i Reoliadau 2013 gael eu cyflwyno.

4.4 Ystyrir bod diwygiadau 2025 i'r Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi yn angenrheidiol er mwyn cryfhau diogelwch iechyd y cyhoedd ymhellach, gwella mesurau diogelu amgylcheddol, a sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol, gan adlewyrchu blaenoriaethau sy'n benodol i Gymru a gweithio'n agos gyda Defra i sicrhau cysondeb ar yr un pryd lle y bo modd.

4.5 Mae Rheoliadau 2013 yn mabwysiadu dull 'un ateb i bob safle' o ddynodi dyfroedd ymdrochi, monitro ansawdd dŵr a'r broses dad-ddynodi. Mae diwygiadau 2025 yn caniatáu ar gyfer ystyriaeth fwy cynnil o ffactorau sy'n benodol i safleoedd er mwyn sicrhau bod safle yn wirioneddol addas at ddibenion ymdrochi.

4.6 Mae'r diwygiadau allweddol, fel yr ymgynghorwyd arnynt, yn cynnwys dileu dad-ddynodi dyfroedd ymdrochi yn awtomatig ar ôl pum mlynedd yn olynol o gael eu dosbarthu'n rhai 'gwael', cyflwyno profion dichonoldeb er mwyn sicrhau y gall safleoedd gyflawni o leiaf ansawdd dŵr 'digonol' ochr yn ochr â diogelwch corfforol ac ystyriaethau diogelu amgylcheddol, dileu dyddiadau penodedig ar gyfer y tymor ymdrochi sy'n cael ei fonitro er mwyn caniatáu dulliau rheoli lleol addasol, a diwygiadau technegol i foderneiddio arferion rheoleiddio.

4.7 Diwygiad Craidd 1: O dan Reoliadau 2013, mae safle dŵr ymdrochi yn cael ei ddad-ddynodi'n awtomatig ar ôl 5 mlynedd yn olynol o gael ei ddosbarthu'n un 'gwael'. Fodd bynnag, mae'r cyfnod hwn yn aml yn rhy fyr i ganiatáu ar gyfer ymchwiliadau a gwelliannau ystyrlon, yn enwedig

pan fydd atebion yn dibynnu ar gylchoedd buddsoddi hirdymor. Gall dileu statws dŵr ymdrochi arwain at ymdrech ofer a chyfleoedd coll i wella ansawdd dŵr. Mae Diwygiad Craidd 1 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC ar ôl ymgynghori â'r awdurdod lleol perthnasol, gynghori'r Gweinidog ynghylch a yw cyflawni dosbarthiad 'digonol' o leiaf o fewn pum mlynedd ychwanegol yn ddichonadwy a ddim yn anghymesur o gostus. Mae'r newid hwn yn rhoi mwy o amser i wneud gwelliannau a hefyd yn cydnabod na fydd rhai safleoedd o bosibl yn addas i'w dynodi oherwydd llygredd cyson na ellir ei ddatrys. Y bwriad polisi cyffredinol yw parhau i ddiogelu iechyd drwy wella ansawdd dŵr lle bynnag y bo modd.

4.8 Bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y rhaglen dyfroedd ymdrochi yn canolbwyntio ar safleoedd y gellir eu defnyddio'n ddiogel at ddibenion ymdrochi, gan ddiogelu iechyd y cyhoedd i'r eithaf ac osgoi'r defnydd aneffeithlon o adnoddau cyhoeddus a phreifat mewn lleoliadau lle mae gwelliannau ansawdd dŵr yn annhebygol o sicrhau amodau diogel.

4.9 Mae Diwygiad Craidd 2 yn cyflwyno diogelwch corfforol a diogelwch amgylcheddol fel meini prawf annatod ar gyfer dynodi dyfroedd ymdrochi, ochr yn ochr â datblygu asesiad dichonoldeb cost a budd ar y cyd â Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC. Nod yr asesiad hwn yw atal safleoedd â lefelau uchel o lygredd, na ellir yn realistig eu cyweirio, rhag cael eu dynodi mewn ffordd a allai roi camargraff i'r cyhoedd eu bod yn lleoliad addas ar gyfer ymdrochi. Drwy gyflwyno dichonoldeb, rydym yn sicrhau bod adnoddau yn canolbwyntio ar safleoedd lle y gall ymyriadau sicrhau manteision ystyrlon i iechyd a'r amgylchedd, yn hytrach na mynd ar drywydd gwelliannau cyffredinol a all fod yn anymarferol.

4.10 Wrth roi hyn ar waith, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd y cyhoedd, yn enwedig mewn safleoedd lle ceir tystiolaeth glir eu bod yn cael eu defnyddio gan ymdrochwyr. Mae hyn yn adlewyrchu bwriad polisi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod diwygiadau rheoliadol yn cael eu troi'n fanteision diriaethol i iechyd y cyhoedd a chadw'n gyson â'r cyd-offeryn statudol.

4.11 Mae Diwygiad Craidd 3 yn cyflwyno hyblygrwydd i ddyddiadau'r tymor ar gyfer safleoedd dŵr ymdrochi fel nad oes gofyniad mwyach i bob safle fod yn destun tymor ymdrochi rhwng 15 Mai a 30 Medi bob blwyddyn.

4.12 Er bod y rheoliadau diwygio yn dal i gyfeirio at y dyddiadau uchod fel dyddiad tymor diofyn i bob pwrpas, caiff Gweinidogion Cymru nawr bennu naill ai (i) dyddiad tymor gwahanol ar gyfer Cymru gyfan neu (ii) dyddiadau tymor gwahanol ar gyfer safle ymdrochi penodol. Felly, sicrheir effaith fwriadedig y diwygiad, gan ei gwneud yn bosibl i safleoedd gael eu cydnabod fel rhai sydd â thymor ymdrochi blynyddol a hefyd gadw'r disgresiwn sydd ei angen i ymateb i amodau lleol a chadw dibynadwyedd dosbarthiadau ansawdd dŵr ar yr un pryd.

4.13 Yn olaf, mae'r diwygiadau technegol yn adlewyrchu cynigion yr ymgynghoriad gan mwyaf, gan foderneiddio ymarfer a gwella effeithlonrwydd, gydag un eithriad o ran diffinio ardaloedd dyfroedd ymdrochi, a ddiwygiwyd i atal canlyniadau anfwriadol.

## 5. Ymgynghori

*Ymgynghoriad ffurfiol*

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad dwyieithog ar yr offeryn statudol arfaethedig drafft am chwe wythnos ar lwyfan ymgynghori Citizen Space Defra o 12 Tachwedd 2024 i 23 Rhagfyr 2024. Ymgynghoriad ar y cyd ydoedd, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Yn ogystal â chyflwyno ymatebion i'r llwyfan, roedd ymatebwyr hefyd yn gallu ymateb drwy e-bost i Defra a/neu Lywodraeth Cymru.

5.2 Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar y 3 diwygiad craidd yn ogystal â'r 9 diwygiad technegol i wella'r defnydd o adnoddau Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC a sicrhau bod y Rheoliadau yn unol ag arferion samplu modern.

5.3 Ceisiwyd barn hefyd ar ddau ddiwygiad ehangach a all fod yn rhan o gamau diwygio rheoleiddio yn y dyfodol.

5.4 Cafodd yr ymgynghoriad 1,526 o ymatebion (102 o ymatebion gan bobl neu sefydliadau yng Nghymru). Roedd 81 y cant o'r ymatebwyr yn aelodau o'r cyhoedd â diddordeb mewn dyfroedd ymdrochi. Roedd ymatebwyr eraill yn cynnwys sefydliadau anllywodraethol a grwpiau budd y cyhoedd (10 y cant), awdurdodau lleol (4 y cant), busnesau yr effeithir arnynt gan newidiadau rheoliadol (2 y cant), perchenogion tir preifat â dyfroedd ymdrochi (2 y cant), cynrychiolwyr cwmnïau dŵr (1 y cant), a ffermwyr neu reolwyr tir (1 y cant). O'r ymatebion hyn, cymerodd cyfanswm o 207 o sefydliadau a busnesau ran yn yr ymgynghoriad.

5.5 Roedd adborth ymatebwyr yng Nghymru a Lloegr yn gyson ar y cyfan rhwng cwestiynau'r ymgynghoriad. Ystyriodd swyddogion Llywodraeth Cymru y dadansoddiad meintiol ac ansoddol ac roeddent yn fodlon bod y canlyniadau'n adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru.

5.6 Roedd y prif ganlyniadau yn deillio o'r dadansoddiad meintiol ac ansoddol a nododd bryder y cyhoedd ynglŷn â dyfroedd ymdrochi sy'n facteriolegol ddiogel.

5.7 Mynegodd ymatebwyr awydd cryf am ddiwygiadau a fyddai'n gwella'r gwaith o fonitro a dosbarthu dyfroedd ymdrochi, gan sicrhau bod safonau iechyd y cyhoedd, diogelwch y cyhoedd a'r amgylchedd yn cael eu cynnal. Nododd yr adborth gytundeb cyffredinol â'r diwygiadau

arfaethedig, gan bwysleisio pwysigrwydd addasu rheoliadau i ymdrin â ffactorau sy'n benodol i safleoedd yn well a gwella ansawdd dŵr cyffredinol.

5.8 Ar y cyfan, roedd canlyniadau'r ymgynghoriad yn dangos mandad gan y cyhoedd ar gyfer y newidiadau arfaethedig, ac roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi'r diwygiadau craidd a'r gwelliannau technegol a oedd â'r nod o wella hyblygrwydd ac effeithiolrwydd y Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi.

5.9 Yn fras, roedd busnesau a sefydliadau o blaid y diwygiadau, ond ar gyfradd ychydig yn is na'r holl ymatebwyr (rhwng 4 y cant a 6 y cant yn is).

5.10 Yng Nghymru, roedd awdurdodau lleol a'r prif randdeiliaid, gan gynnwys Afonydd Cymru a Diogelwch Dŵr Cymru yng Nghymru o blaid y diwygiadau.

5.11 Mae crynodeb dwyieithog o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb y Llywodraeth wedi cael eu cyhoeddi gan Defra a Llywodraeth Cymru. Ymateb Llywodraeth Cymru: [Crynodeb o'r Ymgynghoriad: Diwygiadau i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013]

*Dyletswydd i ymgynghori*

5.12 Mae adran 2(4) o Ddeddf 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, y cyfryw gyrff neu bersonau yr ymddengys eu bod yn gynrychioliadol o fuddiannau llywodraeth leol, diwydiant, amaethyddiaeth a busnesau bach yn y drefn honno ag yr ystyriant yn briodol, a'r cyfryw gyrff neu bersonau eraill ag yr ystyriant yn briodol, cyn gwneud rheoliadau o dan adran 2(1).

5.13 Yn ogystal â'r Ymgynghoriad Ffurfiol, ymgynghorwyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol proses yr adolygiad rheoliadol, yn enwedig ar yr agweddau technegol ar y diwygiadau.

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth, ac mae'n dilyn isod.

## 6. Opsiynau

Dad-ddynodi awtomatig (Diwygiad Craidd 1)

6.1 Opsiwn 0 – Gwneud dim – cadw Rheoliadau 2013. O dan Reoliadau 2013, mae dyfroedd ymdrochi yn cael eu dad-ddynodi ar ôl pum mlynedd o ddosbarthiad 'gwael'.

6.2 Opsiwn 1 – Dileu'r ddarpariaeth ynglŷn â dad-ddynodi awtomatig yn y rheoliadau (yr opsiwn a ffefrir). Byddai diwygiad 2025 i'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'Asiantaeth Briodol' (CNC yng Nghymru) ar ôl ymgynghori â'r awdurdod lleol perthnasol i gynghori'r Gweinidog ynghylch a yw cyflawni dosbarthiad 'digonol' o leiaf o fewn pum mlynedd ychwanegol yn ddichonadwy a ddim yn anghymesur o gostus. O dan yr opsiwn hwn gall cyd-destunau lleol gael eu hystyried a gall dynodiad dŵr ymdrochi gyd-fynd yn well â chylchoedd cynlluniau rheoli asedau (AMP)/adolygu prisiau. Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid caniatáu cyfnod ychwanegol ar gyfer safle er mwyn gwella ansawdd dŵr yn cael ei wneud gan y Gweinidog. Mae'r newid hwn yn rhoi mwy o amser i wneud gwelliannau a hefyd yn cydnabod na fydd rhai safleoedd o bosibl yn addas i'w dynodi oherwydd llygredd cyson na ellir ei ddatrys. Y bwriad polisi cyffredinol yw parhau i ddiogelu iechyd drwy wella ansawdd dŵr lle bynnag y bo modd.

6.3 Ystyried ansawdd dŵr, diogelwch corfforol a mesurau diogelu amgylcheddol cyn dynodi (Diwygiad Craidd 2)

6.4 Opsiwn 0 – Gwneud Dim. Mae'r opsiwn hwn yn cadw Rheoliadau 2013. Wrth nodi dyfroedd ymdrochi newydd, mae Rheoliadau 2013 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r maen prawf cul o niferoedd disgwyliedig ymdrochwyr yn unig.

6.5 Opsiwn 1 – Diwygio Rheoliadau 2013 i ganiatáu ystyriaethau ychwanegol wrth nodi dyfroedd ymdrochi (yr opsiwn a ffefrir). Mae'r cynnig hwn yn cyflwyno diogelwch corfforol a mesurau diogelu amgylcheddol fel meini prawf annatod ar gyfer dynodi dyfroedd ymdrochi, ochr yn ochr ag asesiad dichonoldeb o gost a budd sicrhau ansawdd dŵr digonol. Nod yr asesiad hwn yw atal safleoedd â lefelau uchel o lygredd, na ellir yn realistig eu cyweirio, rhag cael eu dynodi mewn ffordd a allai gamarwain y cyhoedd. Drwy gyflwyno dichonoldeb, mae'n sicrhau bod adnoddau yn canolbwyntio ar safleoedd lle y gall

ymyriadau sicrhau manteision ystyrlon i iechyd a'r amgylchedd, yn hytrach na mynd ar drywydd gwelliannau cyffredinol a all fod yn anymarferol. Bydd canllawiau anstatudol yn esbonio sut y bydd yr asesiad hwn yn gweithio a pha dystiolaeth a gaiff ei hystyried. Byddai CNC yn arwain asesiadau dichonoldeb yng Nghymru ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

6.6 Dyddiadau'r tymor ymdrochi sy'n cael ei fonitro (Diwygiad Craidd 3)

6.7 Opsiwn 0 – Gwneud dim. Cadw Rheoliadau 2013. Mae dyddiadau'r tymor ymdrochi sy'n cael ei fonitro yn cael eu pennu'n 15 Mai i 30 Medi yn y Rheoliadau ar hyn o bryd.

6.8 Opsiwn 1 – Bydd dyddiadau'r tymor ymdrochi yn aros yn y Rheoliadau diwygiedig ond gyda hyblygrwydd ychwanegol (yr opsiwn a ffefrir). Bydd dyddiadau'r tymor ymdrochi yn aros yn y Rheoliadau diwygiedig. Mae drafftio ychwanegol yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion addasu'r tymor ar gyfer pob un o ddyfroedd ymdrochi Cymru ac ar gyfer dyfroedd ymdrochi unigol. Drwy hyn gellir cydnabod safleoedd yn rhai â thymor ymdrochi pwrpasol a chadw'r disgresiwn sydd ei angen i ymateb i amodau lleol a nifer yr ymdrochwyr a chadw dibynadwyedd set ddata dosbarthiadau ansawdd dŵr.

6.9 Diwygiadau Technegol

6.10 Opsiwn 0 – Gwneud dim. Cadw Rheoliadau 2013.

6.11 Opsiwn 1 – Rhoi diwygiadau technegol ar waith (yr opsiwn a ffefrir). Yn unol ag argymhelliad Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC, caiff y Rheoliadau diwygiedig eu diweddaru i adlewyrchu ymarfer modern a gwell effeithlonrwydd. Nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar y prif newidiadau polisi yn y Diwygiadau Craidd a amlinellir uchod.

## 7. Costau a manteision

### Costau

7.1 Dad-ddynodi awtomatig (Diwygiad Craidd 1)

7.2 Opsiwn 0 (gwneud dim) a chadw Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013

7.3 O dan Reoliadau 2013, mae safle dŵr ymdrochi yn cael ei ddad-ddynodi'n awtomatig ar ôl 5 mlynedd yn olynol o gael ei ddosbarthu'n un 'gwael'.

7.4 Mae'r cyfnod hwn yn aml yn rhy fyr i CNC a'r cwmni dŵr ymchwilio'n llawn i ffynonellau o lygredd a sicrhau gwelliannau, yn enwedig mewn safleoedd cymhleth.

7.5 Pan fydd gwelliannau yn dibynnu ar fuddsoddiad hirdymor gan gwmnïau dŵr, nid yw eu cylchoedd cyllido, er enghraifft, y cylch Adolygu Prisiau/Cyfnod Rheoli Asedau bob pum mlynedd i gwmnïau dŵr, yn cyd-fynd â blynyddoedd olynol o ddosbarthiad dŵr ymdrochi gwael yn aml.

7.6 Mae dileu statws dŵr ymdrochi yn awtomatig yn achosi'r risg o gostau suddedig a gwerth gwael am arian os oes rhywfaint o waith gwella wedi dechrau ond na all y safle gael ei wella i safon dosbarthiad 'digonol' o fewn y terfyn amser gofynnol. Gall dileu statws dŵr ymdrochi arwain at ymdrech ofer a chyfleoedd coll i wella ansawdd dŵr.

7.7 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael dyraniad cyllidol penodedig drwy broses cyllideb flynyddol y llywodraeth i gefnogi ei ddyletswyddau rheoleiddio, gan gynnwys gwaith ar ddyfroedd ymdrochi. Pennir y cyllid hwn am gyfnod penodedig, a all gyfyngu ar allu CNC i ymateb i ofynion sy'n newid, yn enwedig wrth i nifer y dyfroedd ymdrochi dynodedig gynyddu o un Adolygiad o Wariant i'r llall. Yn yr un modd, pennir swm buddsoddiad cwmnïau gan OFWAT yn ystod y broses Adolygu Prisiau. Dros y pum mlynedd nesaf, bydd Dŵr Cymru yn buddsoddi £1.1 biliwn i fynd i'r afael â systemau gorlif storm er mwyn lleihau achosion o lygredd 30%.

7.8 O dan yr opsiwn hwn, ni fydd unrhyw newid i gostau gweithredol i'r cwmni dŵr na CNC.

7.9 <u>Opsiwn 1 Diwygio'r Rheoliadau (yr opsiwn a ffefrir)</u>

7.10 O dan y senario hon, ni fyddai dad-ddynodi awtomatig ar ôl pum mlynedd o ddosbarthiad 'gwael' yn gymwys. Nid oes modd rhagweld faint o safleoedd a ddaw o dan y categori hwn yn y dyfodol. Mae ansawdd dyfroedd ymdrochi yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys pa gyrff dŵr sy'n cael eu dynodi'n ddyfroedd ymdrochi, patrymau glaw a'r ffynonellau o lygredd—p'un a ydynt yn dod o fannau penodol neu ffynonellau mwy cyffredinol (gwasgaredig). Mae maint ardal y dalgylch ac i ba raddau y gellir nodi achos yr ansawdd dŵr gwael yn hawdd a mynd i'r afael ag ef hefyd yn chwarae rôl mewn dosbarthiad gwael olynol.

7.11 Ar hyn o bryd, yng Nghymru, mae un safle dŵr ymdrochi wedi cael ei ddosbarthu'n un 'gwael' am ddwy flynedd yn olynol ac mae'n debygol o gael dosbarthiad 'gwael' am drydedd flwyddyn.

7.12 O dan ddiwygiad 2025 i'r Rheoliadau, byddai CNC— ar ôl ymgynghori â'r awdurdod lleol perthnasol—yn cynghori'r Gweinidog ynghylch a yw cyflawni dosbarthiad 'digonol' o fewn y cyfnod ychwanegol o hyd at bum mlynedd yn ddichonadwy a ddim yn anghymesur o gostus. Yna, bydd y Gweinidog yn penderfynu a ddylid caniatáu cyfnod ychwanegol o hyd at bum mlynedd i wella ansawdd dŵr, neu, a ddylid peidio â nodi'r safle yn ddŵr ymdrochi (dad-ddynodi). O dan Reoliadau 2013, os caiff safle dŵr ymdrochi ei ddosbarthu'n un 'gwael' ar ddiwedd tymor ymdrochi, mae'n

rhaid rhoi cyngor yn erbyn ymdrochi ar gyfer y tymor ymdrochi dilynol. Bydd hyn yn parhau i fod yn gymwys o dan ddiwygiad 2025, hyd yn oed os bydd y dŵr ymdrochi o fewn cyfnod (estynedig) ychwanegol. Gwneir hyn i ddiogelu iechyd ymdrochwyr a rhoi amser ychwanegol i wella ansawdd dŵr ar yr un pryd.

7.13 Bydd y diwygiad hwn yn cyflwyno gofyniad adnoddau ychwanegol i CNC. Byddai angen i CNC gynnal yr asesiad dichonoldeb. Costau staff fyddai'r prif gostau. Ond nid yw cwmpas astudiaeth ddichonoldeb yn hysbys eto ac mae'n dibynnu ar ddatblygu adnodd. Mae'r adnodd yn cael ei ariannu gan Defra a'i ddatblygu gan ymgynghorwyr ar y cyd â CNC. Fel rhan o'r contract a ddyfarnwyd gan Defra, bydd rhywfaint o gymorth technegol parhaus i staff CNC sy'n defnyddio'r adnodd. Fodd bynnag, asesiad pen desg fydd yr astudiaeth ddichonoldeb, a fydd yn defnyddio setiau data sy'n bodoli eisoes yn ogystal â'r adnodd sydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Gan nad yw'r broses hon wedi'i phennu'n derfynol eto, mae'r costau wedi'u hamcangyfrif. Fodd bynnag, ar yr amod bod angen asesiad dichonoldeb ar 1 i 2 safle bob blwyddyn mae CNC yn rhagweld y bydd hyn yn costio 0.5FTE o gynghorydd arbenigol sy'n dod i gyfanswm o £39,000 (gan gynnwys argostau CNC) y flwyddyn, ond nodir bod hyn yn dibynnu ar p'un a fydd gan CNC ddigon o staff ar gyfer y gweithgaredd hwn.

7.14 Pe bai cyfnod ychwanegol yn cael ei ddefnyddio, byddai'r lleoliad yn aros yn safle dŵr ymdrochi yn ystod y cyfnod ychwanegol a byddai angen hefyd i CNC a'r awdurdod lleol barhau â'u dyletswyddau rheoleiddio dyfroedd ymdrochi arferol. Fodd bynnag, y rhain fyddai'r costau arferol sy'n gysylltiedig â rheoleiddio safle dŵr ymdrochi ac ni fyddent yn newid oherwydd y cynnig hwn. Nid oes gan CNC amcangyfrif o gost ar hyn o bryd, gan nad oes unrhyw ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru wedi wynebu risg o ddad-ddynodi yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae CNC wedi nodi bod Prosiect Dyfroedd Ymdrochi Bro Morgannwg yn cynnig meincnod defnyddiol, gyda chostau ymchwilio o £200,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Disgwylir i'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn Aberogwr gostio £299,000 yn y flwyddyn ariannol 2025-26.

7.15 Mae cyllid cwmnïau dŵr a dynodiadau dyfroedd ymdrochi yn gweithredu ar gylchoedd o bum mlynedd, ond anaml y mae'r rhain yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae'r sefyllfa hon lle nad ydynt yn cyd-fynd â'i gilydd yn ei gwneud yn anodd i gwmnïau fuddsoddi mewn gwelliannau o fewn y terfyn amser gofynnol (cyn dad-ddynodi awtomatig). Dyrennir buddsoddiadau drwy'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol ac Adolygiadau Prisiau OFWAT bob pum mlynedd. Os tybir bod gwella ansawdd dŵr yn ddichonadwy, bydd angen i gwmnïau ymestyn prosiectau arfaethedig i'r cyfnod ychwanegol. Er na ddisgwylir i gostau gwella cyffredinol newid, mae'r diwygiad hwn yn ei gwneud yn bosibl i gylchoedd cyllido gyd-fynd â'i gilydd yn well, gan osgoi dad-ddynodi cynamserol a chefnogi gwelliannau ansawdd dŵr mwy effeithiol, a thrwy hynny wella ansawdd dŵr a diogelu iechyd ymdrochwyr.

7.16 Fodd bynnag, bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn atal costau suddedig mewn safleoedd lle nad yw'n ddichonadwy gwella ansawdd dŵr. Bydd hyn yn atal gwariant aneffeithiol.

7.17 Caiff costau o'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol eu dyrannu fel arfer ar gyfer ymchwiliadau ac yna welliannau. Gall y rhain gwmpasu pob math o raddfa wahanol, er enghraifft, gallai ymchwiliad gwmpasu dalgylch sy'n cynnwys mwy nag un safle dŵr ymdrochi, a gall rhai dyfroedd ymdrochi fod yn fwy cymhleth, sy'n gofyn am ymchwiliadau a chamau gweithredu ar sawl cam.

7.18 Er mwyn rhoi amcan o gostau buddsoddi, yng Nghymru, mae dau safle dŵr ymdrochi wedi'u dosbarthu'n wael ar hyn o bryd ac maent yn destun ymchwiliad gan gwmni dŵr o dan ei Raglen Amgylcheddol Genedlaethol. Mae costau ar gyfer y ddau safle hyn yn amrywio'n fawr. Mae un dalgylch yn adnabyddus, ac yn cael budd o waith blaenorol yr amcangyfrifir iddo gostio £127,000 am ei fod yn ei uwchraddio i bob diben o'i gymharu â'r llall sydd mewn dalgylch na fu'n destun ymchwiliad yn flaenorol ac sy'n ddalgylch mwy cymhleth, mwy o faint. Yr amcangyfrif mwyaf diweddar ar gyfer ymchwiliad yn y lleoliad hwn yw £500,000.

7.19 Mae'r ffigurau hyn ond yn ymwneud ag ymchwiliad arfordirol ac nid gwelliannau. Bydd CNC hefyd yn ymchwilio i'r ddau safle fel prosiect cyfunol o'r safleoedd hyn dros ddwy flynedd. Amcanestynnir y bydd CNC yn gwario cyfanswm o £402,000 (drwy gyllid grant gan Lywodraeth Cymru). Felly, cyfanswm gwariant cwmni dŵr a CNC i ymchwilio i ddau safle dŵr ymdrochi gwael yw £1.029 miliwn. Mae hyn yn debyg i asesiadau Defra, lle yr aseswyd bod ymchwiliad yn costio £1.1 miliwn ar gyfartaledd.

7.20 Nodir hefyd nad oes unrhyw safleoedd dŵr ymdrochi mewndirol yng Nghymru sydd wedi'u dosbarthu'n wael ar hyn o bryd. Ar y llaw arall, mae Defra ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cael profiad o safleoedd afonydd sydd wedi cael eu dosbarthu'n wael am bedair blynedd yn olynol.

7.21 Yn dilyn ymchwiliad, bydd safleoedd sy'n cael eu dosbarthu'n wael fel arfer yn mynd i gostau i'w gwella. Mae hyn yn ychwanegol at y gwaith monitro a rheoleiddio arferol sy'n gysylltiedig â phob safle dŵr ymdrochi dynodedig sy'n aros yr un fath. Yn dilyn ymchwiliad mewn safle dŵr ymdrochi yng Nghymru a ddosbarthwyd yn wael yn flaenorol, dyrannwyd cyllid ar gyfer gwaith gwella gan gwmni dŵr. Pennir y gyllideb hon ar £4,971,322 ar hyn o bryd. Nid yw'r safle dŵr ymdrochi hwn wedi'i ddosbarthu'n wael mwyach.

7.22 Mae'n bosibl y bydd y diwygiad yn arwain at sefyllfa lle mae rhai safleoedd yn cael eu dad-ddynodi o hyd ar ôl dosbarthiad gwael 5 mlynedd yn olynol, a hynny am y gall Cyfoeth Naturiol Cymru, ar ôl cynnal asesiad dichonoldeb, argymell y dylid dad-ddynodi safle dŵr

ymdrochi, yn hytrach na gadael i hynny ddigwydd yn awtomatig. Ond y Gweinidog a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol a ddylai safle aros yn un dynodedig. O dan y senario hon, heblaw am yr asesiad dichonoldeb, ni fydd y costau sy'n gysylltiedig â'r elfen hon yn newid.

7.23 Yng Nghymru, ceir un traeth y disgwylir iddo gael ei ddosbarthu'n wael am drydedd flwyddyn yn 2025. Y traeth hwn sy'n destun yr ymchwiliadau sy'n cael eu costio uchod, ac nid yw gwelliannau wedi cael eu llunio, eu costio na'u rhoi ar waith eto. Felly, bydd yn cyrraedd yr adolygiad dichonoldeb 5 mlynedd yn gyflym. Bryd hynny, bydd gwerthusiad i benderfynu a ddylid caniatáu cyfnod ychwanegol i wella ansawdd dŵr, ond mae dichonoldeb a chostau hyn yn anhysbys ar hyn o bryd. Costiodd gwelliannau i draeth gerllaw £4,971,322. Yn Lloegr, ar afon Wharfe, mae costau wedi bod mor uchel â £85 miliwn i wella ansawdd dŵr mewn un safle dŵr ymdrochi.

7.24 Mae'r asesiad dichonoldeb yn ychwanegu pwynt gwirio er mwyn sicrhau bod gwariant yn briodol neu benderfynu nad yw'n ddichonadwy gwella'r lleoliad hwn mewn gwirionedd ac na ddylid ei ddynodi'n safle dŵr ymdrochi er mwyn diogelu iechyd ymdrochwyr.

7.25 Disgwylir i gostau gwella amrywio'n sylweddol rhwng safleoedd gan y bydd angen mesurau gwella gwahanol o bosibl.

7.26 Nid yw costau ar gael i Gymru nac i Loegr ar gyfer safleoedd lle mae dosbarthiad ansawdd dŵr gwael wedi'i achosi gan ffynonellau nad ydynt yn gysylltiedig â chwmni dŵr (megis amaethyddiaeth).

7.27 <u>Trosolwg:</u>

7.28 Mae diwygiad 2025 yn dileu dad-ddynodi awtomatig ar ôl pum mlynedd o ddosbarthiad 'gwael'. Yn hytrach, bydd CNC, mewn ymgynghoriad â'r awdurdod lleol, yn asesu a yw gwelliant i fod yn 'ddigonol' yn ddichonadwy ac yn gosteffeithiol. Y Gweinidog fydd yn penderfynu a ddylid caniatáu pum mlynedd ychwanegol neu ddad-ddynodi'r safle.

7.29 Os rhoddir estyniad, erys y safle yn un dynodedig o hyd, ac mae'r dyletswyddau rheoleiddio arferol yn parhau tra yr ymchwilir i'r safle ymhellach a'i wella yn ôl yr angen. Mae costau ymchwilio a gwella yn amrywio'n fawr ac fe'u cyflwynir uchod i Gymru lle maent ar gael.

7.30 Bydd y pwynt adolygu ar ôl 5 mlynedd yn hytrach na dad-ddynodi awtomatig yn helpu i osgoi gwariant aneffeithiol ar safleoedd sy'n annhebygol o wella, gan arwain at arbedion.

7.31 Bydd yr amser ychwanegol yn golygu na fydd sefyllfa yn codi lle nad yw cylchoedd cyllido cwmni dŵr a therfynau amser dyfroedd ymdrochi yn cyd-fynd â'i gilydd - rhywbeth sy'n gallu rhwystro cwmni dŵr rhag

gwneud gwelliannau. Mae'r diwygiad yn cefnogi cylchoedd sy'n cyd-fynd â'i gilydd yn well a gwelliannau ansawdd dŵr mwy effeithiol.

7.32 Nid yw casgliad y dadansoddiad cost a budd hwn yn ymwneud â newid y gwariant ar ymchwilio i ddyfroedd ymdrochi a'u gwella ond, yn hytrach, sicrhau mai dim ond lle mae'n ddichonadwy gwella ansawdd dŵr y bydd y buddsoddiad yn digwydd, a sicrhau, lle mae'n bosibl gwella ansawdd dŵr, nad yw'r gwaith gwella yn cael ei gwtogi gan benderfyniad i ddad-ddynodi safle dŵr ymdrochi.

7.33 Nod Llywodraeth Cymru yw gwella ansawdd dŵr gwael mewn dyfroedd ymdrochi i ddiogelu iechyd y cyhoedd, a bydd y cyfnod ychwanegol yn cefnogi'r nod hwn yn well. Fodd bynnag, bydd yn atal gwariant parhaus ar safleoedd lle nad yw'n bosibl gwella ansawdd dŵr gwael, gan ei gwneud yn bosibl i ymdrochwyr gael eu hysbysu nad yw'n lle diogel i nofio.

7.34 <u>Ystyried ansawdd dŵr, diogelwch corfforol a mesurau diogelu amgylcheddol cyn dynodi (Diwygiad Craidd 2)</u>

7.35 <u>Opsiwn 0 (gwneud dim) a chadw Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013</u>

7.36 O dan y rheoliadau presennol, mae dynodi dyfroedd ymdrochi yn seiliedig ar y nifer disgwyliedig o ymdrochwyr yn unig, heb asesu ansawdd dŵr na dichonoldeb sicrhau dosbarthiad 'digonol'. Nid yw diogelwch corfforol na mesurau diogelu amgylcheddol yn cael eu hystyried ychwaith.

7.37 Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae safleoedd yn cael eu dynodi er gwaethaf ansawdd dŵr gwael, gan ysgogi anghenion i ymchwilio a gwella ar unwaith, fel y manylir arnynt o dan Ddiwygiad Craidd 1 - yn aml heb amcangyfrifon clir o gostau. Gall hyn hefyd beri i'r cyhoedd gredu ar gam ei bod yn ddiogel ymdrochi yn y safle er nad ydyw.

7.38 Mae dynodiadau diweddar o safleoedd ymdrochi afonol yn Lloegr yn dangos bod ansawdd dŵr afonydd yn aml yn wael. Mae llawer o afonydd yng Nghymru hefyd yn SoDdGAau ac o ystyried bwriad Llywodraeth Cymru i ddynodi dyfroedd mewndirol, gall y meini prawf dynodi presennol achosi risgiau i iechyd y cyhoedd a mesurau diogelu amgylcheddol.

7.39 <u>Opsiwn 1 Diwygio'r Rheoliadau (yr opsiwn a ffefrir)</u>

7.40 Ystyried mesurau diogelu amgylcheddol, diogelwch corfforol, ac ansawdd dŵr cyn nodi safle dŵr ymdrochi.

7.41 Mesurau diogelu amgylcheddol:

7.42 Bydd y Gweinidog yn gallu ystyried a allai lefel y gweithgarwch ymdrochi sydd ei angen i ddynodi safle danseilio’n sylweddol y mesurau diogelu amgylcheddol sy’n bodoli eisoes ar y safle.

7.43 Ni ddisgwylir y bydd goblygiadau cost i’r diwygiad hwn. Mae CNC, fel y rheoleiddiwr cadwraeth yng Nghymru, eisoes yn asesu effeithiau hamdden ar safleoedd natur gwarchodedig fel rhan o’i ddyletswyddau presennol. Gan fod yn rhaid i ddyfroedd ymdrochi fod yn boblogaidd cyn cael eu dynodi, a bod unrhyw weithgarwch o fewn safleoedd gwarchodedig (fel nofio) yn gofyn am asesiad ymlaen llaw a chaniatâd, erys hwn yn gyfrifoldeb busnes fel arfer i CNC.

7.44 Fodd bynnag, mae’r diwygiad yn rhoi disgresiwn i’r Gweinidog wrthod dynodiad os ceir y gallai ymdrochi ar raddfa fawr effeithio’n negyddol ar safle gwarchodedig.

7.45 Diogelwch Corfforol:

7.46 Mae pob math o nofio dŵr agored yn dwyn rhywfaint o risg. O dan y Rheoliadau diwygiedig, caiff y Gweinidog ddewis peidio â dynodi safle dŵr ymdrochi os oes seiliau rhesymol dros gredu y byddai hynny’n achosi risg i ddiogelwch corfforol y tu hwnt i’r hyn a ddisgwylir fel arfer wrth ymdrochi.

7.47 Mae awdurdodau lleol, perchnogion tir, a Llywodraeth Cymru eisoes yn gyfrifol am asesu diogelwch corfforol - mae hyn yn ymarfer safonol, p’un a yw safle dŵr ymdrochi wedi’i ddynodi ai peidio. Mae’r diwygiad, yn syml, yn ychwanegu’r disgresiwn i’r Gweinidog wrthod dynodiad os nodir risgiau sylweddol i ddiogelwch.

7.48 Os bydd angen cyngor proffesiynol ynglŷn â diogelwch i ategu penderfyniad y Gweinidog, mae’r gost amcangyfrifedig yn isel - llai na £5,000 y flwyddyn.

7.49 Ansawdd Dŵr:

7.50 Ar gyfer y mesur hwn, cynigir mai CNC fyddai’r asiantaeth briodol i gynghori’r Gweinidog ar ansawdd dŵr, ac, os disgwylir ansawdd dŵr gwael, a yw’n ddichonadwy gwella’r ansawdd dŵr i fod yn ‘ddigonol’ a hynny ar seiliau cost a’r gallu i’w gyflawni.

7.51 Y brif gost fydd y gost i CNC gynnal yr asesiadau hyn a gwneud gwaith pellach cyn dynodi.

7.52 Os bydd nifer yr asesiadau y bydd eu hangen dros y pum mlynedd nesaf yn cyfateb i amcanestyniadau Asiantaeth yr Amgylchedd, i Loegr, bydd angen 52 o asesiadau, yr amcangyfrifir y byddant yn costio cyfanswm o £146,200 - sef £2,811 fesul safle ar gyfartaledd, ond gall costau

gwirioneddol amrywio’n sylweddol, yn dibynnu ar gymhlethdod y safle. Ar hyn o bryd, mae safleoedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru yn cyfateb i ddim ond 20% o’r rhai yn Lloegr. Os bydd dynodiadau newydd yn parhau ar yr un gyfradd, mae nifer yr asesiadau o ddŵr ymdrochi yng Nghymru yn debygol o aros oddeutu 20% o’r niferoedd yn Lloegr. Fodd bynnag, gallai’r amcangyfrif hwn newid, yn dibynnu ar ffactorau megis faint o ddyfroedd ymdrochi y bydd y Gweinidog yn eu nodi.

7.53 Ar yr amod bod angen asesiad dichonoldeb ar 1 i 2 safle bob blwyddyn mae CNC yn rhagweld y bydd hyn yn costio 0.5FTE o gynghorydd arbenigol sy'n dod i gyfanswm o £39,000 (gan gynnwys argostau CNC) y flwyddyn. Mae cafeat ynghlwm wrth hyn, sef bod yr amcangyfrif o gost yn ddibynnol ar Defra yn darparu adnodd dichonoldeb. Os bydd angen samplu ansawdd dŵr, mae pob sampl yn costio £151.79. Mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig, fel arfer cymerir 20 o samplau bob tymor mewn safle dŵr ymdrochi newydd ei ddynodi (£3,035.80), ond ni wyddys ar hyn o bryd faint y bydd ei angen ar gyfer asesiadau dichonoldeb.

7.54 Nod y diwygiad yw asesu ansawdd dŵr cyn dynodi safle yn safle dŵr ymdrochi.

7.55 Os rhagwelir gyda hyder y bydd ansawdd dŵr lleoliad yn wael ac nad yw’n ddichonadwy ei wella, caiff y Gweinidog ddewis peidio â’i ddynodi. Mae hyn yn diogelu iechyd y cyhoedd ac yn osgoi gwariant diangen ar safleoedd sy’n annhebygol o gyrraedd safonau ansawdd dŵr. Er nad yw hyn wedi’i wireddu yng Nghymru eto, nodir y gall gwariant ar safleoedd dŵr ymdrochi fod cymaint â £85 miliwn (Afon Wharfe Yorkshire Water) a gall ansawdd dŵr barhau i gael ei ddosbarthu’n wael. Felly, gallai dewis peidio â dynodi safleoedd fel y rhain hefyd arbed costau.

7.56 Os disgwylir y bydd ansawdd dŵr lleoliad yn wael ond asesir y byddai’n ddichonadwy ei wella, caiff y Gweinidog ddewis parhau i’w ddynodi’n safle dŵr ymdrochi. Mewn achosion o’r fath, gellir cymryd camau ar unwaith i ymchwilio i ansawdd dŵr, hysbysu’r cyhoedd, a dechrau mesurau gwella. Mae cost unrhyw fesurau gwella angenrheidiol yn debygol o amrywio o un safle i’r llall. Mae’r dull gweithredu hwn yn helpu i leihau amlygiad ymdrochwyr i ddŵr gwael a’i nod yw sicrhau ansawdd digonol mor gyflym â phosibl - gan ddiogelu iechyd y cyhoedd.

7.57 <u>Dyddiadau’r tymor ymdrochi sy’n cael ei fonitro (Diwygiad Craidd 3)</u>

7.58 <u>Opsiwn 0 (gwneud dim) a chadw Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013</u>

7.59 Cadw'r tymor ymdrochi fel y'i diffinnir ar hyn o bryd yn Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013.

7.60 Mae'r tymor yn rhedeg o 15 Mai i 30 Medi, pan fydd gwaith monitro gorfodol yn pennu dosbarthiadau ansawdd dŵr blynyddol. Y tu allan i'r cyfnod hwn, nid oes unrhyw samplu statudol, sy'n creu bylchau yn y data ar ansawdd dŵr. Y tu allan i'r cyfnod hwn, byddai ymatebion rheoleiddio gwahanol, er enghraifft pe bai achos o lygredd.

7.61 Nid yw'r rheoliadau presennol yn cynnig unrhyw hyblygrwydd i addasu'r tymor yn seiliedig ar ddefnydd lleol, er gwaethaf gweithgarwch ymdrochi cynyddol y tu allan i'r dyddiadau statudol. Mewn rhai achosion, gall tymor byrrach fod yn fwy priodol - er enghraifft, i ddiogelu rhywogaeth sensitif.

7.62 Er y byddai cadw'r tymor presennol yn osgoi costau ychwanegol, gall hyn achosi risg i ymdrochwyr a nodweddion amgylcheddol oherwydd gwaith monitro cyfyngedig a dim gallu i addasu.

7.63 <u>Opsiwn 1 Diwygio Rheoliadau 2013 (yr opsiwn a ffefrir)</u>

7.64 Byddai estyn y tymor ymdrochi ar unrhyw ffurf yn arwain at gostau uwch i CNC, cwmnïau dŵr ac, i raddau llai, awdurdodau lleol.

7.65 Bydd yr union gost yn dibynnu ar y ffordd y caiff y tymor ei newid, am ei bod yn uniongyrchol gysylltiedig â nifer y diwrnodau monitro ychwanegol. Bydd costau yn amrywio yn seiliedig ar y dyddiadau penodol a ddewisir ar gyfer y tymor ymdrochi.

7.66 Mae'r Rheoliadau diwygiedig yn cadw'r tymor safonol (15 Mai i 30 Medi) ond maent bellach yn cynnwys cymalau sy'n caniatáu i'r Gweinidog bennu tymor ymdrochi gwahanol i Gymru gyfan neu ar gyfer safleoedd unigol. Mae'r hyblygrwydd ychwanegol hwn yn sicrhau y bydd y tymor yn adlewyrchu patrymau ymdrochi gwirioneddol, gan helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae hefyd yn caniatáu ar gyfer tymhorau byrrach os oes angen - er enghraifft, i ddiogelu rhywogaeth sensitif a chefnogi bioamrywiaeth.

7.67 Bydd y costau i gwmnïau dŵr yn deillio o'r gofynion ar gwmnïau dŵr bod yn rhaid iddynt gyfyngu ar ollyngiadau yn ôl tymhorau dyfroedd ymdrochi. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gwmnïau gyfyngu ar ollyngiadau o systemau gorlif storm yn ystod y tymor ymdrochi. Os caiff y dŵr ymdrochi ei ddosbarthu'n 'wael' (neu 'digonol' ond tybir bod risg o ddirywio i fod yn 'wael'), yna bydd CNC yn gofyn i gwmnïau dŵr gynnal ymchwiliadau i ansawdd dŵr a ffynonellau o lygredd er mwyn canfod a yw eu hasedau yn cyfrannu at broblemau ansawdd dŵr. Os bydd ymchwiliadau yn dangos bod asedau cwmni dŵr yn gwneud cyfraniad digon mawr, yna bydd CNC yn ei gwneud yn ofynnol iddo uwchraddio ei seilwaith, fel arfer drwy wneud trwyddedau gorlifoedd storm cyfun (systemau gorlif storm) yn llymach neu drwy ofyn i'r cwmni dŵr osod cyfleusterau diheintio mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff perthnasol.

Mewn rhai achosion, gall hyn adlewyrchu lle mae ymarfer cwmni yn annigonol, a bydd CNC yn cynnal ymchwiliad cyfreithiol.

7.68 Bydd y gost i CNC yn amrywio, yn dibynnu ar hyd yr estyniad i'r tymor ymdrochi. Byddai angen cyfrif am gostau labordy, costau samplu, newidiadau o ran trwyddedu, diweddariadau i waith modelu llygredd, a dyrannu swyddogion yr amgylchedd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i CNC roi amcangyfrif o'r goblygiadau cost pe bai'r tymor ymdrochi yn cael ei ymestyn. Mae CNC wedi darparu costau dangosol ar gyfer ymestyn y tymor ymdrochi i 12 mis mewn nifer fach o safleoedd cyfagos. Byddai hyn angen swyddog samplu 0.5 FTE ychwanegol (£29,000 y flwyddyn gan gynnwys argostau) a 0.5 FTE ar gyfer gwasanaethau labordy estynedig (£29,000 y flwyddyn). Mae'r amcangyfrifon ceidwadol hyn yn cymryd yn tybio agosrwydd safleoedd. Bydd gofyniad hefyd i gymryd samplau ychwanegol yn ystod yr estyniad i'r tymor ymdrochi, ac amcangyfrifir bod hyn yn £151.79 y sampl. Er bod CNC wedi darparu costau dangosol ar gyfer tymor dŵr ymdrochi drwy gydol y flwyddyn, nid oes cynnig ar hyn o bryd i ymestyn y tymor yn y modd hwn ac mae er mwyn dangos amcan yn unig. Nid oes unrhyw amcangyfrifon cost wedi'u darparu ar gyfer swyddogion amgylcheddol, ymateb i ddigwyddiadau, neu drwyddedu, a fyddai hefyd yn ofynnol.

7.69 Mae modelau rhagweld llygredd mewn dyfroedd ymdrochi hefyd yn cael eu graddnodi yn ôl y tymor ymdrochi o 15 Mai i 30 Medi a dim ond yn ystod y cyfnodau hynny y maent yn weithredol. Os bydd tymor ymdrochi safle dŵr ymdrochi sy'n destun model rhagweld risg llygredd yn newid, efallai y bydd angen ailraddnodi'r model a'i wneud yn weithredol am gyfnod hwy. Fodd bynnag, gan yr argymhellir yn gryf y dylid adolygu modelau o bryd i'w gilydd a'u diweddaru, gallai hyn arwain at ganlyniad cadarnhaol cyffredinol. Gan fod amrywiaeth eang o fodelau yn weithredol yng Nghymru, gallai'r gost hon amrywio o £10,000 i £1 miliwn, yn dibynnu ar y math o fodel sydd ar waith a chwmpas yr ymarfer ailraddnodi sydd ei angen.

7.70 Costau Pontio ar gyfer pob diwygiad:

7.71 Bydd angen i gwmnïau dŵr a CNC ymgyfarwyddo â'r canllawiau newydd, sef darllen unrhyw bolisi datganedig newydd yn bennaf. Mae'n anodd amcangyfrif costau o'r fath, a disgwyliwn i'r costau fod yn y £1,000oedd ar gyfer pob cwmni. Ymdrinnir â chostau ymchwiliadau pellach uchod o dan Ddiwygiad Craidd 3. Mae'n bosibl y bydd cost ymgyfarwyddo â'r bil Mesurau Arbennig Dŵr ar gyfer cynlluniau lleihau achosion o lygredd yn debyg ac fel y cyfryw bernir y byddent ar lefel resymol o faint tua £30,000.

7.72 **Manteision**

7.73 Ar gyfer yr asesiad hwn, nid yw manteision y pennwyd eu gwerth ariannol wedi cael eu cynnwys ar gyfer safleoedd dŵr ymdrochi penodol oherwydd y dystiolaeth gyfyngedig sy'n ystyried effaith safleoedd dŵr ymdrochi ar les. Yn hytrach na hynny, defnyddiwyd dull gweithredu cenedlaethol.

7.74 Gan ddefnyddio astudiaeth Eftec, *Willingnes to Pay* (2014)[1], mae Defra wedi amcangyfrif y byddai Gwerth Presennol Manteision o £119-600k o ran gwerthoedd manteision dros gyfnod o bum mlynedd, yn seiliedig ar welliannau posibl yn statws dŵr ymdrochi a allai ddigwydd pe bai dynodiadau awtomatig yn cael eu dileu. Defnyddiwyd data hanesyddol i asesu canran y safleoedd y bydd eu dosbarthiad yn gwella dros gyfnod o bum mlynedd. O ystyried bod disgwyl i'r newidiadau rheoliadol arfaethedig helpu mwy o safleoedd i gadw eu dynodiad lle y gellir sicrhau gwelliant dros amser, amcangyfrif ceidwadol yw hwn, yn ein barn ni. Mae'n debygol y bydd gwerthoedd manteision gwirioneddol yn uwch.

7.75 Er nad yw Llywodraeth Cymru na Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cyhoeddi ffigur uniongyrchol ar gyfer Gwerth Presennol Manteision fel amrediad Defra o £119K–£600K, yng Nghymru, defnyddiodd Anciaes yn *Revealed Preference Valuation of Beach and River Quality in Wales* (2021)[2] ymddygiad go iawn i amcangyfrif gwerth gwelliannau ansawdd dŵr i draethau ac afonydd yng Nghymru. Mae'n dangos bod pobl yn ffafrio ymweld â thraethau ag ansawdd dŵr rhagorol, yna rai â statws da, wedyn statws digonol neu wael. Amcangyfrifodd werth gwella afon sydd wedi'i dosbarthu'n wael i statws boddhaol fel £1.51 fesul ymweliad presennol, gan arwain at gynnydd o 65% mewn ymweliadau. Wrth ystyried gwerth defnydd (ymweliadau presennol) a gwerth newydd (o ymweliadau ychwanegol o ganlyniad i well ansawdd dŵr) cyflwynir cyfanswm y gwerth fel £23,913 y mis.

7.76 Mae'n bosibl y bydd manteision ehangach megis mantais iechyd y cyhoedd drwy lai o amlygiad i lygredd dŵr gan y bydd yn bosibl ystyried ansawdd dŵr cyn nodi dyfroedd ymdrochi.

7.77 Mae'n bosibl hefyd y bydd manteision economaidd ehangach, drwy fwy o ymweliadau gan dwristiaid neu deithiau hamdden. Mae rhywfaint o dystiolaeth o'r Alban[3] yn awgrymu bod ansawdd dŵr yn bwysig i'r sector twristiaeth.

7.78 Disgwylir i'r opsiynau a amlinellir uchod arbed costau i'r sector cyhoeddus yn y dyfodol gan y bydd y broses o ddynodi safleoedd yn y

---

[1] *Bathing Water Valuation National Survey Summary Report* (2014)

[2] *Revealed preference valuation of beach and river water quality in Wales* Fersiwn a dderbyniwyd o'r papur a gyhoeddwyd yn Journal of Environmental Economics and Policy, https://doi.org/10.1080/21606544.2020.1864778 (2021)

[3] *The value of bathing waters and the influence of bathing water quality: Final Research Report* Awst 2018 Llywodraeth yr Alban.

dyfodol yn fwy effeithlon. Mae hyn yn fantais allweddol fel y'i nodir yn yr adran ar arbed costau.

7.79 Bydd y rheoliad hefyd yn cyflwyno lefelau uwch o waith monitro data drwy gydol y flwyddyn, a ddylai wella prosesau gwneud penderfyniadau.

7.80 **Ymatebion Cwmnïau Dŵr i'r Ymgynghoriad**

7.81 Mae ymatebion cwmnïau dŵr ynglŷn â chyfanswm y costau fel a ganlyn:

7.82 Dŵr Cymru Cyfyngedig: Mae'n nodi bod gan Ddiwygiad Craidd 1 a Diwygiad Craidd 2 y potensial i gael effeithiau cadarnhaol, ond i wrthbwyso hynny, y byddai Diwygiad Craidd 3 yn cynyddu costau. Ni allai asesu hyd nes y caiff cynigion manwl yr astudiaeth ddichonoldeb eu rhannu.

7.83 Severn-Trent (sy'n gweithredu yng Nghymru ond nad oes unrhyw ddyfroedd ymdrochi yn ei ardaloedd gweithredu): Nododd y byddai cyfanswm costau'r diwygiadau dros £1m y flwyddyn, ond byddai'r costau ychwanegol o ganlyniad i estyniad posibl i'r tymor ymdrochi mewn safleoedd yn cael eu gwrthbwyso gan y diwygiad a gynigir ynglŷn â dichonoldeb.

7.84 **Crynodeb**

7.85 Opsiwn 0 – Bydd Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 yn aros ar waith heb ddiwygiadau.

7.86 O dan y fframwaith presennol, bydd Llywodraeth Cymru, CNC, Dŵr Cymru, ac awdurdodau lleol yn parhau i weithredu o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 gyda'r lefelau cyllido presennol. Fodd bynnag, mae'r dull gweithredu hwn yn wynebu pwysau cynyddol oherwydd niferoedd cynyddol o safleoedd dynodedig.

7.87 Nid yw'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ansawdd dŵr, diogelwch corfforol, na mesurau diogelu amgylcheddol gael eu hystyried cyn dynodi safle, a all arwain at fuddsoddiadau costus ac aneffeithlon. Mae'n bosibl y bydd CNC a chwmnïau dŵr yn ei chael hi'n anodd ateb y galw cynyddol gyda chyllidebau sefydlog, a fydd yn achosi risg o safleoedd sydd wedi'u rheoli'n wael a chostau suddedig os bydd dad-ddynodi awtomatig yn digwydd heb ailasesiad.

7.88 Hefyd, mae'n bosibl y bydd dynodiadau newydd yn mynd rhagddynt heb werthuso a yw gwelliannau ansawdd dŵr yn ddichonadwy, gan leihau gwerth am arian. Bydd ymdrochwyr hefyd yn parhau i ddefnyddio safleoedd y tu allan i'r tymor monitro swyddogol, sy'n creu bylchau mewn gwybodaeth ac yn cynyddu risgiau i iechyd.

7.89 Opsiwn 1 – Diwygio’r Rheoliadau

7.90 Bydd y diwygiad arfaethedig yn arwain at gostau ac arbedion i CNC, cwmnïau dŵr, ac - i raddau llai - awdurdodau lleol. Er ei bod yn anodd pennu ffigurau manwl gywir am fod llawer o ffactorau anhysbys, bydd y diwygiadau yn ei gwneud yn bosibl i wariant gael ei dargedu’n fwy. Drwy gyflwyno asesiadau dichonoldeb cyn dynodi a dad-ddynodi safleoedd a sicrhau bod y broses honno’n cyd-fynd yn well â chylchoedd cyllido (AMP/PR) cwmnïau dŵr, mae’r diwygiad yn helpu i osgoi costau suddedig ac yn gwella effeithiolrwydd penderfyniadau buddsoddi.

7.91 Yn bwysig ddigon, mae’r diwygiadau yn cynnig manteision sylweddol o ran iechyd y cyhoedd. Un thema gyson sy’n codi ym mhob un o’r newidiadau arfaethedig yw y byddai llai o amlygiad i ansawdd dŵr gwael ymhlith ymdrochwyr.

7.92 Mae hyn nid yn unig yn diogelu iechyd ond mae hefyd yn cefnogi gwelliannau hirdymor o ran ansawdd dŵr ac effeithlonrwydd rheoleiddiol.

## 8. Asesiadau Effaith

8.1 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldebau, Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg, ac Asesiad o’r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi cael ei gwblhau. Bydd y rhain ar gael ar gais.

## 9. Asesiad o’r Gystadleuaeth

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Atebwch yn gadarnhaol neu’n negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Nac ydyw |

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Atebwch yn gadarnhaol neu'n negyddol** |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Nac ydyw |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Bydd effaith y diwygiadau arfaethedig yn cael ei monitro trwy gyfuniad o gasglu data parhaus, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac adolygiad cyfnodol. Bydd cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am weithredu, fel CNC ac awdurdodau lleol, yn helpu i olrhain dangosyddion allweddol gan gynnwys nifer y dyfroedd ymdrochi dynodedig, canlyniadau ansawdd dŵr, a gofynion adnoddau. Bydd adborth rheolaidd yn cael ei geisio gan randdeiliaid a chymunedau yr effeithir arnynt i nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg neu ganlyniadau anfwriadol.

10.2 Bydd gwerthusiad yn cael ei gynnal ar adegau perthnasol, megis ar ôl pob tymor ymdrochi, i asesu effeithiolrwydd y diwygiadau a llywio unrhyw addasiadau angenrheidiol. Bydd adroddiadau, lle bo hynny'n bosibl, sy'n crynhoi canlyniadau a gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu gyda phartneriaid perthnasol a'r cyhoedd i sicrhau tryloywder. Lle bo hynny'n briodol, gellir cynnal ymgynghoriad pellach i fireinio prosesau a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau wrth gyflawni. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau bod y diwygiadau yn parhau i ymateb i anghenion newidiol ac yn parhau i gefnogi iechyd y cyhoedd, diogelu'r amgylchedd, a llesiant cymunedol.